pontio i'r brifysgol

Mae'r ceisiadau wedi'u derbyn, rydych chi wedi clywed yn ôl ac wedi gwneud eich penderfyniadau am ble i fynd a beth i'w astudio. Ond beth am y misoedd olaf hynny cyn dechrau eich cwrs? Mae hwn yn gyfnod pwysig, yn enwedig os ydych chi hefyd yn pontio allan o ofal, boed hynny'n symud i fyw'n lled-annibynnol neu'n annibynnol, neu'n trefnu i aros gyda'ch teulu maeth drwy'r cynllun Pan Fydda i'n Barod. Felly, dyma rai cwestiynau y bydd angen i chi eu gofyn i chi eich hun:

Oes unrhyw amodau cyn gallaf i ddechrau fy nghwrs? Efallai fod gennych chi gynnig amodol, sy'n golygu bod angen i chi gael graddau penodol mewn Safon Uwch (Lefel A), cymwysterau BTec neu gyrsiau eraill cyn dechrau. Ydych chi'n debygol o allu cyflawni'r amodau hyn? Ac ydych chi'n gwybod gyda phwy y dylech chi siarad os nad yw pethau'n mynd yn unol â'r cynllun?

Ydw i'n gwybod sut mae fy astudiaethau'n cael eu hariannu? Gweler ein taflen ffeithiau Gwneud Cais a Gwneud Dewisiadau am ragor o fanylion am sut gallwch chi ariannu eich astudiaethau Yn ystod y misoedd cyn i chi ddechrau eich cwrs prifysgol mae angen i chi wneud yn siŵr bod eich holl gyllid yn ei le – os ydych chi wedi gwneud yr holl geisiadau angenrheidiol cyn i'ch cwrs ddechrau, mae'n llawer llai tebygol y bydd oedi cyn derbyn yr arian sydd ei angen arnoch ar gyfer ffioedd, rhent a chostau byw eraill.

Ydw i'n gwybod ble rydw i'n mynd i fyw? Efallai i chi ddewis astudio'n agos i'ch cartref ac aros lle'r ydych chi'n byw yn barod. Os nad ydych chi, mae gweithio allan lle rydych chi'n mynd i fyw yn hanfodol! Yr opsiwn mwyaf cyffredin i fyfyrwyr blwyddyn gyntaf yw byw mewn Neuaddau Preswyl; fel arfer blociau lle byddwch chi'n rhannu fflat gyda nifer bach o gydfyfyrwyr. Mae llawer o brifysgolion yn cynnig llety 365 diwrnod i fyfyrwyr sydd â phrofiad o ofal, felly fydd dim rhaid i chi boeni am y gwyliau. Efallai y bydd hi hefyd yn bosibl i chi fyw gyda phobl sydd â rhywbeth yn gyffredin â chi, boed hynny'n fyfyrwyr sydd â phrofiad o ofal, myfyrwyr aeddfed neu fyfyrwyr LGBTQ+. Edrychwch ar wefannau prifysgolion neu siaradwch â'r cyswllt dynodedig ar gyfer myfyrwyr sydd â phrofiad o ofal dynodedig am ragor o wybodaeth.

Beth sydd angen i mi fynd gyda mi? Trowch y ddalen i edrych ar ein rhestrau gwirio defnyddiol. Cofiwch y bydd llawer o brifysgolion yn cynnig pecynnau croeso ac yn darparu rhai eitemau allweddol i fyfyrwyr sydd â phrofiad o ofal – peidiwch ag ofni gofyn i'ch prifysgol beth maen nhw'n gallu ei wneud i chi!

Symud i'r brifysgol: Yr hanfodion

- Dogfennau pwysig (fel llythyrau derbyn, unrhyw gadarnhad y gofynnwyd i chi ei ddangos am eich statws gofal)
- Cysuron cartref (eich hoff flanced? Tegan eich plentyndod? Beth bynnag sy'n gwneud i chi deimlo'n fwy cyfforddus, dewch ag ef gyda chi)
- Dillad
- Cynhyrchion i'r ystafell ymolchi
- Eitemau trydanol
- Dillad gwely
- Eitemau cegin
- Rhestrau cyswllt
- Eitemau penodol ar gyfer eich cwrs
- Edrychwch ar https://www.savethestudent.org/accommodation/what-to-take-to-university.html i gael rhestrau manylach